Ysgol Penrhyn-coch

Yn anffodus mae ein prifathro, Mr R. T. Evans, yn absennol oherwydd afiechyd ond da gennym gael ar ddeall ei fod yn teimlo'n llawer iawn gwell, a gobeithiwn y bydd yn ol yn ein plith erbyn y daw'r rhifyn hwn o'r *Tincer* i law. Cawsom wasanaeth Mrs M. E. Connors o'r Dolau yn ei absenoldeb ac yr ydym yn ddiolchgar iawn iddi am ei chymorth.

Cynhaliwyd Chwaraeon Potes yr Urdd i ysgolion cylch Aberystwyth yn yr ysgol ar nos Fawrth Mai 17eg. Er iddi fod yn brynhawn cymylog a'r glaw yn bygwth unwaith neu ddwy, nid amharodd hynny ddim ar frwdfrydedd y pedwar tim ar ddeg a ddaeth i gystadlu. Ar ddiwedd y noson tim Ysgol Penparcau oedd yn fuddugol ac estynnwn ein llongyfarchiadau cynnes iddynt. Carwn hefyd ddiolch i'r holl dimau a gymerodd ran gan wneud y noson yn un ddifyr a hwyliog. Ein diolch diffuant hefyd i'r athrawon ac ambell i riant fu'n stiwardio'r gemau ac i aelodau o bwyllgor yr Urdd Ysgol y Penrhyn fu'n helpu tu ol i gownter y siop. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Ar nos Lun Mai 23ain aeth criw o'r plant lawr i Blas-crug, Aberystwyth i redeg yn y ras traws gwlad. Gwnaeth pob un waith canmoladwy iawn gan wneud ei orau fel arfer. Braf yw cael dweud i Rhydian Hughes ennill y ras i fechgyn dan 10 oed ac i Matthew Bishop ddod yn bumed. Yn y ras i ferched dan 10 oed daeth Clare Rees yn wythfed. Cafwyd dwy ras arbennig o dda i fechgyn ac i ferched dan 12 oed. Yn y ras i ferched daeth Bethan Evans yn ail a Kay Smith yn bumed. Pleser hefyd yw deall fod tim y bechgyn dan 10 oed, sef Rhydian Hughes, Matthew Bishop, Gari Lewis a Dyfed Evans yn ogystal a thim y merched dan 12 oed sef Bethan Evans, Kay Smith a Helen Sutherland wedi dod yn ail ill dau. Llongyfarchiadau iddynt bob un ac i bawb a redodd y noson honno.